1.0 Pwy sy'n gymwys?

1.1 Rhoddir blaenoriaeth i grwpiau sydd a'u seiliau yng Nghaernarfon ac yn wreithredol yng Ngaernarfon yn gwneud gwaith sydd o fudd i drigolion tref Caernarfon ac yn cyd-fynd ag amcanion Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon.

1.2 Gellir ystyried ceisiadau hefyd gan grwpiau sydd â'u pencadlys tu allan i Gaernarfon ond sy'n weithredol yng Ngaernarfon yn gwneud gwaith sydd o fudd i drigolion tref Caernarfon ac yn cyd-fynd ag amcanion Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon.

1.3 Gellir ystyried rhai ceisiadau gan fudiadau cenedlaethol Cymreig yn ymwneud â diwylliant ac economi Cymru sydd yn berthnasol i Gaernarfon.

2.0 Math o geisiadau

2.1 Gellir ystyried dau fath o gais:

- cais gan gorff am gymorth tuag at gostau gweithgaredd arferol blynyddol;
- cais gan gorff, neu unigolyn, tuag at ddigwyddiad neu weithgaredd arbennig.

3.0 Pryd i wneud cais?

3.1 Mae'n rhaid i gyrff sydd am wneud cais tuag at gostau gweithgaredd blynyddol sicrhau bod eu cais yn cael eu dderbyn **cyn 10 Tachwedd y flwyddyn flaenorol**.

3.2 Os am wneud cais ar gyfer digwyddiad neu weithgaredd arbennig rhaid gwneud hyn **o leiaf 8 wythnos cyn y digwyddiad.** Yn ddelfrydol dylid gwneud y cais cyn hyn er mwyn sicrhau eich bod wedi darparu yr holl wybodaeth angenrheidiol. (Gweler Rhan 5.4 i ddilyn)

4.0 Pa wybodaeth sydd angen ei anfon?

Pob cais

4.1 Rhaid anfon:

- y ffurflen gais wedi ei chwblhau gydag unrhyw atodiad perthnasol;
- Eich cyfrifion yn dangos eich incwm a gwariant am y flwyddyn ariannol ddiweddaraf wedi eu archwilio;
- Eich mantolen banc diweddaraf.

Cais am ddigwyddiad neu weithgaredd arbennig

4.2 Rhaid anfon:

- disgrifiad o'r gweithgaredd ac amcanion y digwyddiad;
- amcangyfrif o'r holl gostau cyfalaf a refeniw y digwyddiad;
- amcangyfrif o unrhyw incwm a ddisgwylir o gynnal y digwyddiad;
- manylion ceisiadau am nawdd gan gyrff eraill ar gyfer y digwyddiad;
- manylion unrhyw weithgaredd gan eich mudiad i godi arian tuag at gynnal y digwyddiad.

4.3 **Os na fydd y wybodaeth uchod yn gyflawn ni ellir ystyried eich cais**.

5.0 Faint o gymorth sy'n bosibl?

5.1 Mae'r arian sydd ar gael gan y Cyngor yn gyfyngedig iawn ac ni ellir cyfrannu tuag at pob cais. Fe fydd pob cais dilys yn cael ei ystyried yn fanwl ac, os yn cael ei gytuno, fe fydd y Cyngor yn cyfranu o fewn eu gallu. Yn gyffredinol, ni all y Cyngor ystyried rhoddi mwy na £1,000 tuag unrhyw gais.

6.0 Sut i wneud cais

6.1 Gellir llawrlwytho Ffurflen Gais o'r wefan www.caernarfontowncouncil.gov.uk neu fe allwch ffonio Clerc y Dref ar 01286 672943 i gael copi.

6.2 Anfonwch eich ffurflen gais gyda'r holl wybodaeth angenrheidiol i:

Clerc y Dref,
Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon,
Adeilad yr Institwt,
Allt Pafiliwn,
Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AT

6.3 O dderbyn eich cais bydd Clerc y Dref yn ei archwylio ac, os fydd yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi ei dderbyn, bydd yn rhoddi y cais ar agenda cyfarfod nesaf Panel Cyllid y Cyngor.

6.4 Os na fydd y ffurflen gais yn gyflawn neu os nad ydych wedi amgau'r holl wybodaeth a ofynir yna fe fydd y Clerc yn cysylltu a chwi i egluro na ellir ystyried y cais hyd fyddwch wedi anfon yr holl wybodaeth sydd ei angen. Fe all hyn olygu na fydd yn posibl rhoddi eich cais gerbron y Panel Cyllid nesaf ac fe fydd rhaid i'ch cais aros hyd y Panel dilynol (yn arferol yn fis yn ddiweddarach). Bydd hyn yn amlwg yn creu oedi yn y broses o ddelio gyda'ch cais.

6.5 Bydd penderfyniadau'r Panel Cyllid yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Cyngor llawn sy fel arfer yn cyfarfod ar y nos Fawrth cyntaf o bob mis. Gall y Cyngor dderbyn y penderfyniadau neu addasu rhai ohonynt neu fe allai'r Cyngor wrthod rhai ceisiadau.

6.6 Yn dilyn cyfarfod o'r Cyngor llawn fe fydd y Clerc yn cysylltu a chwi i adael ichwi wybod beth oedd canlyniad eich cais.

7.0 Obligiadau derbyn cyfraniad ariannol oddi wrth Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

7.1 Os yw eich cais yn llwyddiannus rhaid i'r cymorth 'rydych yn ei dderbyn gael ei nodi yn eich cyfrifon ariannol. Fe all y Cyngor osod amodau eraill ar rhai ceisiadau.

7.2 Os yw eich cais ar gyfer digwyddiad neu weithgaredd arbennig gofynnir ichwi, yn ogystal, anfon, o fewn 3 mis o gwblhau'r digwyddiad:

- adroddiad yn disgrifio'r digwyddiad;
- adroddiad ariannol yn dangos yr incwm a'r gwariant ynglwm a'r digwyddiad.

7.3 Mewn rhai achosion bydd y Cyngor yn anfon cynrychiolydd i weld canlyniad y gweithgaredd.